Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Bro Plenydd
# Y Ffôr
# Pwllheli
# Gwynedd
# LL53 6UP

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 09/04/2015**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Gynradd Bro Plenydd ym mhentref gwledig Y Ffôr, ger Pwllheli, Gwynedd. Tri dosbarth oed cymysg sydd yn yr ysgol a'r Gymraeg yw'r prif gyfrwng iaith.

Daw'r disgyblion o'r pentref neu'r ardal wledig o'i gwmpas. Mae 80 disgybl ar y gofrestr ar hyn o bryd, yn cynnwys 14 o ddisgyblion oed meithrin rhan-amser. Daw ychydig dros hanner o'r disgyblion o gartrefi lle siaredir y Gymraeg.

Mae 3.8% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd o gefndir ethnig lleiafrifol. Derbynnir disgyblion ar draws yr ystod lawn o allu, ac mae'r ysgol wedi dynodi 19% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r pennaeth yn ei swydd ers 1995 ac fe arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Chwefror 2009.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Bro Plenydd yn 2014-2015 yw £4,123. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yng Ngwynedd yw £10,744 a'r lleiafswm yw £3,220. Mae Ysgol Bro Plenydd yn y 40fed safle o'r 95 ysgol gynradd yng Ngwynedd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad Ysgol Bro Plenydd yn dda gan fod:

- Rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cyson sy'n briodol i'w hoed a'u gallu
- Medrau siarad a gwrando rhan fwyaf y disgyblion yn dda
- Bron pob un yn hyderus ddwyieithog erbyn diwedd cyfnod allweddol 2
- Disgyblion ar draws yr ysgol yn ymddwyn yn dda, yn frwdfrydig ac yn awyddus i ddysgu
- Ansawdd yr addysgu yn effeithiol ar draws yr ysgol
- Darpariaeth effeithiol yn bodoli i hyrwyddo lles ac ethos cynhwysol, croesawgar lle teimla'r disgyblion yn hapus a diogel

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon yr ysgol ar gyfer gwella yn dda am fod:

- Holl aelodau'r staff yn glir ynghylch eu rolau ac yn gweithio fel tîm
- Y pennaeth yn cynnig arweiniad clir sy'n cael dylanwad buddiol ar safonau a lles disgyblion
- Yr ysgol yn gwybod yn dda am ei pherfformiad ei hun
- Y corff llywodraethol yn ei herio yn effeithiol
- Blaenoriaethau a thargedau heriol a phriodol yn weithredol ar gyfer gwella safonau
- Yr ysgol yn cynnig gwerth da am arian

## Argymhellion

A1 Lleihau'r bwlch rhwng perfformiad merched a bechgyn ar y lefelau uwch yng nghyfnod allweddol 2

A2 Darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd yn effeithiol ar draws yr holl feysydd dysgu

A3 Rhannu arferion gorau addysgu ar draws yr ysgol

A4 Parhau i wella cyfraddau presenoldeb y disgyblion

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Ar fynediad i'r ysgol, mae gan y rhan fwyaf o'r disgyblion fedrau sylfaenol sy'n briodol i'w hoed. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae bron pob disgybl yn defnyddio'r Gymraeg yn naturiol ac yn gywir ar draws yr ysgol. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da yn eu medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu. Maent yn hyderus wrth sgwrsio am eu gwaith ac yn defnyddio ystod eang o eirfa wrth siarad. Maent yn darllen i safon sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn datblygu eu medrau ysgrifennu yn effeithiol. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu'n annibynnol gan ddechrau amrywio brawddegau ac atalnodi'n gywir.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn medru cynnal sgyrsiau mewn modd aeddfed yn y Gymraeg a Saesneg. Maent yn defnyddio geirfa raenus a naturiol wrth sgwrsio am eu gwaith ac am faterion eraill sydd o ddiddordeb iddyn nhw. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn medru darllen yn ystyrlon a chyda rhuglder a mynegiant clir yn y ddwy iaith. Mae llawer yn gallu defnyddio'u uwch fedrau darllen yn effeithiol i gywain gwybodaeth. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn medru ysgrifennu'n estynedig i safon uchel yn y ddwy iaith ar gyfer ystod o bwrpasau ar draws y cwricwlwm. Mae ganddynt afael gynyddol ar gywirdeb ac atalnodi ac maent yn trefnu eu gwaith yn effeithiol mewn paragraffau gan ddefnyddio geirfa ymestynnol i gyfleu syniadau yn llwyddiannus. Er enghraifft, ysgrifennu ymgom yn seiliedig ar daith y Mimosa i Batagonia a sgript rhaglen gelf ar gyfer y radio.

Mae medrau gwrando'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn dda iawn. Maent yn gwrando yn ofalus, gan ddeall prif bwyntiau cyflwyniadau a gofyn am eglurhad os oes ei angen. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae bron pob disgybl yn cyrraedd safon uchel o ddwyieithrwydd ac yn medru trawsieithu'n effeithiol.

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn gwneud defnydd da o'u medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn medru trin a thrafod graffiau syml, defnyddio cyfesurynnau a mesur hyd a lled gwrthrychau er mwyn datrys problemau yn effeithiol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn medru trafod data'n hyderus ac yn defnyddio'u medrau yn effeithiol i ddatrys problemau pob dydd, er enghraifft dylunio blwch dominos. Maent hefyd yn llunio graffiau sy'n briodol at wahanol bwrpasau ar draws y cwricwlwm.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da ac mae'r disgyblion o allu uwch yn cyflawni'n dda. Nid oes patrwm arwyddocaol o wahaniaeth yng nghyflawniad disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim o'u cymharu â'u cyfoedion. Yn gyffredinol, mae perfformiad merched yn well na pherfformiad bechgyn dros gyfnod o amser.

Dros y blynyddoedd diwethaf, yn aml roedd nifer cymharol fach o ddisgyblion yn y grwpiau blwyddyn ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2. Gall hyn effeithio'n sylweddol ar berfformiad meincnod yr ysgol o gymharu ag ysgolion tebyg.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, dros gyfnod o dair blynedd, mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) o'i gymharu ag ysgolion tebyg wedi amrywio rhwng yr 50% is a'r 25% isaf mewn datblygiad llythrennedd. Mae wedi bod yn gyson yn y 25% isaf ar gyfer datblygiad mathemategol. Yn 2014, roedd perfformiad yr ysgol yn yr 50% is mewn llythrennedd a'r 25% isaf mewn datblygiad mathemategol.

Yn gyffredinol, dros y tair blynedd ddiwethaf, mae perfformiad ar y deilliant uwch (deilliant 6) wedi amrywio rhwng yr 50% uwch a'r 25% isaf ar gyfer datblygiad mathemategol a rhwng yr 50% is a'r 25% isaf mewn datblygiad llythrennedd.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel 4 ddisgwyliedig wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf dros y pedair blynedd ddiwethaf o gymharu ag ysgolion tebyg ym mhob pwnc craidd. Yn 2014, mae'r perfformiad yn gosod yr ysgol o fewn y 25% uchaf mewn Saesneg, Cymraeg a gwyddoniaeth, ac yn y 25% isaf ar gyfer mathemateg.

Yn gyffredinol, dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae perfformiad yr ysgol mewn Cymraeg a mathemateg ar y lefel uwch wedi ei gosod rhwng y 50% uwch a'r 25% uchaf. Mae perfformiad yr ysgol ar gyfer Saesneg a gwyddoniaeth wedi amrywio rhwng yr 50% is a'r 25% uchaf. Yn 2014, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel uwch (lefel 5) mewn Cymraeg a gwyddoniaeth yn ei gosod yn yr 50% uwch. Mae perfformiad mewn mathemateg yn gosod yr ysgol o fewn y 25% uchaf a'i pherfformiad mewn Saesneg o fewn yr 50% is.

**Lles: Digonol**

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod y gallant droi at unrhyw aelod o staff am gymorth. Maent yn ymwybodol o bwysigrwydd bwyta'n iach, yfed dŵr ac ymarfer y corff yn rheolaidd. Mae llawer o'r disgyblion yn manteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael iddynt er mwyn ychwanegu at eu ffitrwydd a'u medrau corfforol, er enghraifft y clwb cerdded a'r clybiau pêl droed a phêl rwyd.

Mae presenoldeb yr ysgol ar gyfer 2014 yn 95.3%. Er ei bod yn dangos cynnydd o flwyddyn i flwyddyn, o gymharu ag ysgolion tebyg, mae'r ysgol wedi bod yn y 25% isaf dros y pum mlynedd ddiwethaf. Mae prydlondeb yn dda.

Mae ymddygiad bron pob un o'r disgyblion yn dda iawn ac maent yn dangos parch a gofal at ei gilydd ac at oedolion. Maent yn dangos lefelau uchel o gymhelliant, diddordeb a balchder yn eu gwaith ac yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd materion lles, iechyd a diogelwch.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn cael llais amlwg ym mhenderfyniadau'r ysgol trwy waith y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco. Maent yn weithredol wrth ddatblygu gardd yr ysgol ac yn defnyddio'r cynnyrch i goginio bwydydd iach. Mae'r cyngor ysgol yn weithgar ac yn cael effaith gadarnhaol ar agweddau amgylcheddol yr ysgol, ei gweithgareddau a'i hadnoddau. Maent yn teimlo bod yr ysgol yn gwrando arnynt ac yn eu gwerthfawrogi. Mae'r disgyblion yn ymwybodol o'r angen i ailgylchu ac i arbed ynni.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau fel cyngherddau, gwasanaethau ac eisteddfodau yn y pentref a'r gymuned tu hwnt. Maent bron i gyd, ar draws yr ystod oedran, yn manteisio ar y cyfleoedd hyn ac yn datblygu eu hyder wrth berfformio a chymryd rhan o fewn y gymuned.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau diddorol sy'n ennyn diddordeb a chwilfrydedd bron bob un o'i disgyblion. Mae'r cwricwlwm yn gytbwys ac yn ymateb i ofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol yn dda.

Mae'r athrawon yn cynllunio'n effeithiol gan sicrhau eu bod yn adeiladu ar ddysgu blaenorol. Rhoddir sylw priodol i ran fwyaf o ofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn eu cynlluniau gwaith. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llafar disgyblion yn gryfder ar draws yr ysgol. Rhoddir lle blaenllaw yn y cynllunio ar gyfer datblygu medrau darllen, ysgrifennu a medrau meddwl y disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio i gymhwyso'r holl fedrau rhifedd wedi'i lwyr ddatblygu ar draws yr ysgol hyd yn hyn.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn gyfoethog ac yn ganolog i holl waith yr ysgol. Mae profiadau disgyblion yn cael eu cyfoethogi yn effeithiol gan ymweliadau addysgol a thrwy ystod dda o weithgareddau ymarferol diddorol, er enghraifft ymweld ag Ynys Enlli i astudio adar sy'n mudo.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn dda. Drwy weithgareddau'r 'Grŵp Gwyrdd', mae'r disgyblion yn dysgu am faterion fel arbed ynni, ailgylchu a garddio. Datblygir ymwybyddiaeth y disgyblion o ddinasyddiaeth fyd-eang yn effeithiol drwy gysylltiadau gyda gwledydd fel Afghanistan a thrwy godi arian ar gyfer gwahanol elusennau tramor.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu yn effeithiol ar draws yr ysgol. Mae perthynas waith cadarn yn bodoli rhwng yr oedolion a'r disgyblion ymhob dosbarth. Gwneir defnydd effeithiol o amrywiaeth o ddulliau addysgu sy'n sicrhau bod disgyblion o bob gallu yn cyflawni'n dda ac yn datblygu medrau dysgu annibynnol yn effeithiol. Mae'r athrawon yn holi'n dreiddgar ac yn cyfeirio at yr hyn mae disgyblion eisoes yn ei wybod, er mwyn ymestyn eu dealltwriaeth a chodi eu safonau. Mewn ychydig o achosion, gwelir gorddefnydd o daflenni gwaith a gormod o arweiniad gan yr athro.

Ar draws yr ysgol, mae gan athrawon ddealltwriaeth gadarn o'r cwricwlwm ac maent yn manteisio ar gyfleoedd i ddatblygu medrau'r disgyblion yn effeithiol. Mae'r holl staff yn modelu iaith safonol yn dda ac mae hyn yn cyfrannu'n sylweddol at gryfhau iaith lafar y disgyblion. Mae'r staff cymorth yn chwarae rôl effeithiol wrth gefnogi'r dysgu ym mhob dosbarth.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu wedi gwreiddio'n dda ym mhob dosbarth. Mae gwaith ysgrifenedig disgyblion yn cael ei farcio'n rheolaidd ac mae sylwadau

adeiladol yr athrawon yn cynnig adborth adeiladol ar gyfer y disgyblion. Nodir yn glir beth y mae disgyblion wedi'i gyflawni'n dda a'r hyn sydd angen iddyn nhw ei wneud er mwyn gwella. Mae'r disgyblion yn ymateb yn rheolaidd i'r sylwadau er mwyn gwella'u gwaith ac yn cyfrannu'n effeithiol i'r broses o osod ac adnabod eu targedau dysgu.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau trwyadl ar gyfer asesu, monitro a chofnodi cynnydd disgyblion. Mae'r athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o brofion safonol a data olrhain cynnydd. O ganlyniad, mae gan staff wybodaeth dda ar gyfer blaenoriaethu cefnogaeth briodol ar gyfer disgyblion, gan gynnwys yr ychydig sy'n tangyflawni a gwella'r ddarpariaeth ar eu cyfer.

Mae'r rhieni yn derbyn gwybodaeth werthfawr am gynnydd eu plant ac mae'r adroddiadau blynyddol yn ymateb yn llawn i'r gofynion statudol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn darparu amryw o gyfleoedd gwerthfawr sy'n cyfoethogi datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol, a diwylliannol y disgyblion. Mae bron pob disgybl yn deall pwysigrwydd gwerthoedd fel gonestrwydd a pharch er mwyn gweithio'n llwyddiannus fel cymuned.

Caiff pwysigrwydd cadw'n heini ei bwysleisio'n effeithiol drwy'r cwricwlwm a'r ystod eang o weithgareddau allgyrsiol. Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol ag asiantaethau arbenigol sy'n sicrhau bod disgyblion yn derbyn cefnogaeth fuddiol. Maent wedi cydweithio'n dda gyda'r swyddog lles dros y blynyddoedd diwethaf i wella presenoldeb disgyblion.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda.

Defnyddia'r ysgol amrywiaeth o ddulliau effeithiol i adnabod anghenion disgyblion yn gynnar ac i sicrhau'r gefnogaeth angenrheidiol iddyn nhw. Mae gan ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol fynediad llawn i'r cwricwlwm ac mae cynlluniau addysg unigol cynhwysfawr ar eu cyfer, sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd, mewn ymgynghoriad â'r rhieni. Gwna'r ysgol defnydd da o weithdrefnau olrhain cynnydd er mwyn sicrhau bod rhaglenni ymyrraeth yn effeithiol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae Ysgol Bro Plenydd yn gymuned glos a gofalgar ble caiff pawb eu parchu. Mae iddi ethos cartrefol a chroesawgar lle mae'r disgyblion a'r athrawon yn dangos parch a gofal tuag at ei gilydd. Caiff disgyblion gyfleoedd niferus i gyfrannu at fywyd yr ysgol gan ddatblygu meddylfryd cyfrifol ac aeddfed. Mae polisïau a gweithdrefnau priodol yn sicrhau mynediad cyfartal i'r ddarpariaeth ac yn hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth cymdeithasol yn effeithiol.

Mae’r adeilad yn cynnig cyfleusterau perthnasol ar gyfer nifer y disgyblion ac mae’r ysgol yn gwneud defnydd da ohonynt. Ceir arddangosfeydd lliwgar ac addysgiadol o waith y disgyblion ar draws yr ysgol sy’n dathlu eu hymdrechion yn llwyddiannus. Mae’r amrywiaeth o adnoddau tu fewn a thu allan i’r adeilad yn cael eu defnyddio’n dda er mwyn cyfoethogi’r dysgu a’r addysgu.

Caiff yr adeiladau a'r tir eu cynnal a'u cadw'n dda ac maent yn darparu amgylchedd ysgogol ar gyfer chwarae a dysgu.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae’r ysgol yn cael ei arwain yn dda gan bennaeth sydd â disgwyliadau uchel, a gweledigaeth glir ar sut i godi safonau. Mae'n cyfleu'r weledigaeth yn llwyddiannus i'r staff, y disgyblion, y rhieni a’r llywodraethwyr. Caiff ei chefnogi gan athrawon a chymorthyddion brwdfrydig sy’n deall eu cyfrifoldebau’n dda. O ganlyniad, mae’r ysgol yn barod i fabwysiadu adnoddau a strategaethau newydd i gynnal safonau uchel ac i wella blaenoriaethau fel rhifedd a llythrennedd.

Mae cyfarfodydd staff yn canolbwyntio'n glir ar flaenoriaethau gwella ac yn sicrhau bod pob aelod o staff yn deall eu rôl yn y broses. Golyga hyn fod pawb yn ymwybodol o’r heriau sy’n eu hwynebu ac yn cydweithio’n dda er mwyn sicrhau gwelliant.

Mae’r ysgol yn ymateb yn dda i flaenoriaethau cenedlaethol. Er enghraifft, cyflwyno athroniaeth y Cyfnod Sylfaen, gweithredu strategaethau asesu ar gyfer dysgu, a chyflwyno’r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd.

Mae aelodau’r corff llywodraethol yn gefnogol i waith yr ysgol ac yn ymwybodol o’u cyfrifoldebau. Maent yn ymateb yn dda i’w rôl weithredol ac maent yn monitro cynnydd yn erbyn data a blaenoriaethau yn dda. Maent yn elwa o ymweliadau rheolaidd â’r ysgol sy’n rhoi dealltwriaeth gadarn iawn iddynt o’i pherfformiad a’r agweddau hynny sydd angen gwelliant pellach. Maent yn datblygu eu rôl fel cyfaill beirniadol yn dda.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae’r ysgol wedi sefydlu trefn effeithiol ar gyfer hunanarfarnu, sydd wedi ei gwreiddio dros amser yn ei gweithgareddau arferol. Mae sylwadau a barn staff, rhieni, llywodraethwyr a'r disgyblion yn rhan allweddol o'r broses. Defnyddir ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol yn effeithiol gan gynnwys dadansoddi data, arsylwi gwersi a chraffu ar waith disgyblion er mwyn canfod cryfderau’r ysgol a’r meysydd i’w datblygu.

Mae’r adroddiad hunanarfarnu yn ddogfen onest a chywir, sy’n dangos bod arweinwyr yn adnabod yr ysgol yn dda. Ceir gwerthusiad gwerthfawr o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu.

Mae cyswllt amlwg a phriodol yn bodoli rhwng deilliannau'r weithdrefn hunanarfarnu a blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol. Mae'r cynllun datblygu yn ddogfen weithredol sy'n cynnwys targedau clir a mesuradwy a chamau gweithredu priodol. Mae'r pennaeth, y staff a'r llywodraethwyr yn monitro ac adolygu cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau yn effeithiol. Gwna'r ysgol ddefnydd effeithiol o werthuso cynnydd tuag at flaenoriaethau'r cynllun blaenorol wrth lunio'r cynllun datblygu cyfredol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol wedi sefydlu nifer o bartneriaethau cefnogol sy'n cyfoethogi'r profiadau dysgu a deilliannau'r disgyblion. Ceir partneriaeth gref gyda'r rhieni, sy'n gefnogol iawn i waith yr ysgol. Mae'r ysgol yn cyfathrebu'n glir a rheolaidd gyda'r rhieni ac yn paratoi canllawiau gwerthfawr iddynt ar sut i gefnogi eu plant yn eu dysgu. Mae'r gymdeithas rhieni yn cyfrannu'n dda tuag at gyllid yr ysgol wrth brynu adnoddau ychwanegol, er enghraifft tŷ gwydr i hybu agweddau o addysg gynaliadwy.

Mae partneriaeth dda yn bodoli rhwng yr ysgol a'r gymuned leol. Daw nifer o ymwelwyr i'r ysgol, sy'n cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion yn dda ac yn eu helpu i ffurfio cysylltiad cymunedol cryf; er enghraifft, i ddysgu crochenwaith i'r disgyblion ac i siarad am fwydydd a geir yn yr archfarchnad leol.

Mae partneriaethau buddiol hefyd yn bodoli gyda nifer o asiantaethau'r awdurdod lleol a'r awdurdod iechyd, sy'n cael effaith bositif ar ddatblygiad lles a chyrhaeddiad disgyblion. Mae'r ysgol hefyd yn cydweithio'n dda gydag ysgol arbennig gyfagos, er mwyn i'r staff dderbyn hyfforddiant perthnasol ar faterion yn ymwneud ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae partneriaethau effeithiol i hybu diwylliant Cymreig, fel dawnsio gwerin a chymryd rhan yn yr eisteddfod leol. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd da i'r disgyblion ymarfer eu medrau cyfathrebu a'u doniau cymdeithasol yn briodol.

Mae cynllunio strategol effeithiol gyda'r ysgol feithrin yn sicrhau trefniadau hwylus wrth i'r plant gychwyn yn yr ysgol. Yn yr un modd, mae trefniadau pontio gyda'r ysgol uwchradd leol yn sicrhau bod y disgyblion hŷn yn trosglwyddo'n effeithiol pan ddaw'r amser iddynt symud i'r sector honno.

Mae partneriaethau effeithiol gydag ysgolion lleol yn sicrhau cysondeb o fewn gweithdrefnau safoni a chymedroli asesiadau a gwaith y disgyblion. Mae'r staff yn elwa o'r profiadau hyn ac yn magu hyder yn gynyddol wrth lefelu gwaith disgyblion a rhannu arfer dda ymysg ei gilydd.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol gyflenwad priodol o athrawon a chymorthyddion cymwys a phrofiadol i addysgu'r cwricwlwm yn llwyddiannus. Fe'u lleolir yn dda gan sicrhau bod pob disgybl yn cael eu cynnwys yn llawn yng ngweithgareddau'r ysgol.

Mae'r pennaeth ac athrawon yr ysgol yn mynychu cyfarfodydd o rwydweithiau arfer proffesiynol gydag ysgolion eraill yn rheolaidd. Cyfranna hyn yn dda at wella safonau a'r ddarpariaeth. Er enghraifft, mae bod yn rhan o Siarter Iaith Gwynedd wedi dod â phrofiadau diwylliannol cyfoethog i'r disgyblion drwy gydweithio ag artistiaid Cymreig ym myd dawns, geiriau, cerddoriaeth a chelf.

Mae gan yr ysgol drefn glir ar gyfer rheoli perfformiad athrawon a chymorthyddion sy’n cyfrannu’n dda at wireddu blaenoriaethau datblygu’r ysgol ac anghenion datblygiad proffesiynol y staff.

Mae'r trefniadau ar gyfer cyfnodau cynllunio, paratoi ac asesu’r athrawon yn briodol ac yn cyfrannu'n dda tuag at ddatblygu gweithdrefnau effeithiol iddynt gynllunio ac olrhain cynnydd y disgyblion.

Gwneir defnydd effeithiol o’r grant i geisio lleihau effaith amddifadedd ar ddisgyblion yr ysgol sy’n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Clustnodir y grant hwn i godi safonau darllen a rhifedd disgyblion, ac mae wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion yn y meysydd hyn.

Mae'r corff llywodraethol yn gosod y gyllideb yn ofalus ac yn cytuno ar y blaenoriaethau i'w cyllido. Maent yn monitro’r gyllideb yn effeithiol, gan sicrhau bod adnoddau'r ysgol yn cael eu rheoli’n ddarbodus i fodloni anghenion cyfredol y disgyblion.

O ystyried y safonau a gyflawnir gan y disgyblion, mae’r ysgol yn rhoi gwerth da am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6612048 - Ysgol Bro Plenydd**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 69 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 3.8 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 8 | 11 | 11 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 75.0 | 81.8 | 63.6 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 4 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 8 | 11 | 11 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 87.5 | 81.8 | 90.9 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 12.5 | 0.0 | 36.4 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 3 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 8 | 11 | 11 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 75.0 | 81.8 | 72.7 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 0.0 | 36.4 | 27.3 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | 4 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 8 | 11 | 11 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 90.9 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 4 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 0.0 | 9.1 | 54.5 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 3 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6612048 - Ysgol Bro Plenydd**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 69 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 3.8 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 11 | 9 | 13 | 7 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 100.0 | 77.8 | 84.6 | 85.7 |
| Chwartel meincnod | 1 | 4 | 4 | 4 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 11 | 9 | 13 | 7 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 90.9 | 77.8 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 27.3 | 33.3 | 46.2 | 42.9 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 2 | 3 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 11 | 9 | 13 | 7 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 77.8 | 92.3 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 4 | 2 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 36.4 | 33.3 | 38.5 | 42.9 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 2 | 2 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 11 | 9 | 13 | 7 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 88.9 | 84.6 | 85.7 |
| Chwartel meincnod | 1 | 4 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 45.5 | 55.6 | 46.2 | 57.1 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 2 | 1 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 11 | 9 | 13 | 7 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 88.9 | 92.3 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 4 | 4 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 45.5 | 55.6 | 38.5 | 57.1 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 3 | 2 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 34 | 34<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 34 | 34<br>100%<br>92% | 0<br>0%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 34 | 34<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 34 | 34<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 34 | 34<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 34 | 34<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 34 | 34<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 34 | 34<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 34 | 34<br>100%<br>91% | 0<br>0%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 34 | 33<br>97%<br>95% | 1<br>3%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 34 | 34<br>100%<br>77% | 0<br>0%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 34 | 34<br>100%<br>84% | 0<br>0%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 23 | 20 | 3 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 87% | 13% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 23 | 18 | 5 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 78% | 22% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 23 | 19 | 4 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 83% | 17% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 23 | 14 | 9 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 61% | 39% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 23 | 18 | 4 | 0 | 1 | 0 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 78% | 17% | 0% | 4% | | |
| | | 46% | 45% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 23 | 18 | 5 | 0 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 78% | 22% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 21 | 16 | 4 | 0 | 0 | 1 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 76% | 19% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 20 | 10 | 6 | 1 | 0 | 3 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 50% | 30% | 5% | 0% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 23 | 14 | 8 | 0 | 0 | 1 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 61% | 35% | 0% | 0% | | |
| | | 58% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 22 | 15 | 7 | 0 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 68% | 32% | 0% | 0% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 23 | 18 | 4 | 1 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 78% | 17% | 4% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 20 | 13 | 4 | 0 | 0 | 3 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 65% | 20% | 0% | 0% | | |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 23 | 18 | 5 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 78% | 22% | 0% | 0% | | |
| | | 49% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 23 | 13 | 9 | 1 | 0 | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 57% | 39% | 4% | 0% | | |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 23 | 12 | 10 | 1 | 0 | 0 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 52% | 43% | 4% | 0% | | |
| | | 45% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 21 | 13 | 7 | 0 | 0 | 1 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 62% | 33% | 0% | 0% | | |
| | | 56% | 38% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 20 | 6 | 9 | 0 | 0 | 5 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 30% | 45% | 0% | 0% | | |
| | | 43% | 33% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 23 | 11 | 9 | 0 | 0 | 3 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 48% | 39% | 0% | 0% | | |
| | | 54% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 23 | 19 | 4 | 0 | 0 | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 83% | 17% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 32% | 3% | 1% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Kevin Davies | Arolygydd Cofnodol |
| William Griffiths | Arolygydd Tîm |
| Glenda Jones | Arolygydd Lleyg |
| Derfel Griffiths | Arolygydd Cymheiriaid |
| Carys Hughes | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

### Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

### Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.